03.02.2022

Mali Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880493

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Portread sy'n cyfleu cymeriad Sharon Morgan

Mae Sharon Morgan wedi hen arfer â phortreadu cymeriadau gwahanol *(Martha, Jac a Sianco; Resistance; Torchwood; Pobol y Cwm*) ac mae hi wedi ennill llu o wobrau wrth wneud. Ond sut brofiad bydd cael ei phortread hi ei hun wedi'i dynnu gan artist?

Bob wythnos, mae **Cymry ar Gynfas** yn dod ag un artist ac un wyneb adnabyddus at ei gilydd i greu portread unigryw.

Yn ogystal â'r campwaith sy'n cael ei ddatgelu ar ddiwedd y rhaglen, cawn bortread gonest ac agored o'r artist a'r person enwog wrth iddynt sôn am eu profiadau o ddarlunio a chael eu darlunio.

Yr artist Teresa Jenellen, sy'n byw ym Machynlleth ac yn arbenigo'n bennaf mewn dyfrlliw, sy'n wynebu'r her o bortreadu Sharon Morgan. Yn ei gwaith, mae Teresa yn dwyn ysbrydoliaeth gan hanesion gwerin fel y Mabinogi ac mae hi'n mwynhau cyfleu stori drwy symbolaeth gyda blodau, adar ac anifeiliaid.

Wrth gwrdd am y tro cyntaf yng nghanolfan gelfyddydau Chapter yng Nghaerdydd, mae Teresa yn awyddus i glywed argraffiadau Sharon ar gymeriadau'r Mabinogi.

"Dwi'n teimlo'n gryf iawn bod menywod y Mabinogi yn cael eu paentio mewn ffordd hollol, hollol ofnadwy. Mae pobl yn eu clodfori nhw fel tywysogesau, ond wedyn maen nhw'n bobl ddrwg: Rhiannon yn cario'r bobl yna ar ei chefn, Branwen yn dod yn ôl i Gymru a dweud mai ei bai hi yw e fod dwy wlad wedi cael eu dinistrio...ac Arianrhod yn cael ei galw'n wrach, wrth gwrs, yn fenyw ddrwg achos mae hi'n herio'r drefn batriarchaidd. Hi yw'n hoff gymeriad i," yw ateb pendant Sharon.

Ac mae celfyddyd yn ddrych ar fywyd, mewn ffordd, yn ôl Sharon. Fel rhywun sydd wedi gweithio ym maes theatr, ffilm a theledu ers dros hanner canrif, mae hi'n gwaredu o weld y ffordd mae menywod yn cael eu trin yn y diwydiant o hyd.

"O'n i'n meddwl fel ffeminist yn y 70au, erbyn hyn bydde'r sefyllfa wedi gwella ond mae pwysau dychrynllyd ar fenywod nawr. Mae'n dechrau dod ar ddynion hefyd, ond byth i'r un graddau. A dyma ran o'r broblem - dy'n ni ddim yn gweld menywod o bob math, o bob maint ac yn y blaen yn y cylchgronau, ar y teledu."

"Mae llai o rannau i chwarae - er, dwi wedi bod yn lwcus - mae llai o rannau wrth i ti fynd yn henach. Ond fi'n credu dylid bod llawer mwy, a ddylwn ni weld menywod yn eu hoedran," meddai Sharon.

Gan fod gwrando yn rhan bwysig o broses greadigol Teresa Jenellen, wrth i'r ddwy sgwrsio, mae'r artist yn cael ei hysbrydoli gan elfennau o bersonoliaeth a chymeriad Sharon.

"Tra mae rhywun yn siarad, dwi'n cael syniadau neu dwi'n cael lluniau bach yn fflytran yng nghefn fy mhen. Wedyn pan dwi'n mynd adra, dwi jyst yn boddi yno fo i gyd. Dwi'n trio cau llygaid a gadael i bethau ddod imi," meddai Teresa.

Beth felly oedd ei hargraffiadau o Sharon Morgan?

"Person annibynnol, caru'r teulu ond caru'i gyrfa hefyd, yn browd o'i gwlad, ac o fod yn ffeminist - a dwi wedi trio rhoi pethau fel'na fewn i'r llun."

Bydd cyfle i weld y sgwrs rhwng y ddwy a'r portread terfynol am 8.00 o'r gloch nos Lun ar S4C.

Eto i ddod yn y gyfres, bydd y cerddor Mei Gwynedd yn cael ei ddarlunio gan Steffan Dafydd; y cyn-chwaraewr rygbi Jonathan Davies gan Meuryn Hughes; a'r perfformiwr amryddawn Carys Eleri gan Aron Evans. Mae'r penodau cyntaf, sef Liz Saville Roberts AS a Lowri Davies, ac Arfon Haines Davies a John Rowlands ar gael ar S4C Clic.

**Cymry ar Gynfas**
**Nos Lun 14 Chwefror 8.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Wildflame ar gyfer S4C**

03.02.2022

Mali Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880493

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# A portrait to capture Sharon Morgan's character

Sharon Morgan is certainly used to portraying different characters (*Martha, Jac a Sianco; Resistance; Torchwood; Pobol y Cwm*) and she's won plenty of awards for it too. But how will she feel getting a portrait of herself painted by an artist?

Each week, **Cymry ar Gynfas** (The Welsh on Canvas) brings together one Welsh artist and one famous face to create a unique portrait.

As well as the masterpiece that's unveiled at the end of the programme, we also get an honest and open account of the artist and the celebrity as they discuss their experiences of portraying and being portrayed.

Teresa Jenellen, an artist who lives in Machynlleth and specialises primarily in watercolours, has accepted the challenge of portraying Sharon Morgan. In her works, Teresa takes inspiration from folk tales like the Mabinogi and she enjoys conveying a story through symbolism with flowers, birds and animals.

When they meet for the first time in Chapter arts centre in Cardiff, Teresa is keen to hear Sharon's take on the characters of the Mabinogi.

"I feel very strongly that the women of the Mabinogi are portrayed in such a terrible way. People worship them as these princesses, but then they're awful people: Rhiannon carrying those people on her back, Branwen returning to Wales and saying that it's her fault that two countries have been destroyed…and Arianrhod, who's called a witch of course, a nasty woman because she challenges the patriarchal order. She's my favourite character," Sharon replies.

And art imitates life, in a way, according to Sharon. As someone who's worked in theatre, film and television for over fifty years, she despairs at seeing the way women are still being treated in the industry.

"I thought as a feminist in the 70s, by now things would be better but there's a dreadful pressure on women now. It's starting to be put on men too, but never to the same extent. And this is part of the problem – we don't see all types of women, women of all sizes, and so forth, in magazines, on television."

"There are fewer roles – even though I've been lucky – there are fewer roles as you get older. But I believe there should be so many more, and that we should see roles for older women," Sharon says.

Because listening is an important part of Teresa Jenellen's creative process, as the two discuss, she takes inspiration from elements of Sharon's personality and character.

"As someone talks, I get ideas or I get little images fluttering in the back of my mind. Then when I get home, I just drown in it all. I try to close my eyes and let things come to me," Teresa says.

So what was her impression of Sharon Morgan?

"An independent person, loves her family but loves her work too, proud of her country and of being a feminist – and I've tried to put these things into the portrait."

There's a chance to see their conversation and the final portrait at 8.00 on Monday on S4C.

Still to come in this series, musician Mei Gwynedd is portrayed by Steffan Dafydd; former rugby player Jonathan Davies by Meuryn Hughes; and multitalented performer Carys Eleri by Aron Evans. The first two episodes with Liz Saville Roberts MP and Lowri Davies, and Arfon Haines Davies and John Rowlands are available on S4C Clic.

**Cymry ar Gynfas**
**Monday 14 February 8.00, S4C**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Wildflame production for S4C**